

Ymateb Ysgrifenedig Y Llywodraeth Cymru i Adroddiad Y Pwyllgor Deisebau: Rheoli Sŵn Tyrbinau Gwynt

Crynodeb Gweithredol

Polisi Ynni

Mae pob agwedd ar ein bywydau yn dibynnu ar ein system ynni. Mae'r system honno bellach yn wynebu newidiadau mawr wrth i ni ei haddasu er mwyn cyflawni amrywiaeth o amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Golyga'r newidiadau hyn, sy'n cael eu hamlinellu yn ein dogfen bolisi, Ynni Cymru: Newid Carbon Isel, ein bod yn disgwyl i'n system ynni:

- gael ei datgarboneiddio'n fwyfwy –ail-gadarnhaodd Cyngor Ewrop ym mis Chwefror 2011 fod yr Undeb Ewropeaidd yn anelu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80-95% erbyn 2050 o gymharu â 1990, a gaiff effaith ganlyniadol o ran cynyddu faint o drydan carbon isel a gynhyrchir;
- cyrraedd safonau amgylcheddol eraill megis y rhai ar gyfer llygryddion a gwastraff;
- diogelu a sicrhau ffynonellau ynni;
- sicrhau fforddiadwyedd, drwy farchnadoedd ynni, a fframwaith credadwy ar gyfer buddsoddiad hirdymor.

Felly, rydym yn newid system gyfan i ynni carbon isel – trydan, gwresogi a thrafnidiaeth – sy'n chwyldroi yn ein ffordd o ddiwallu a rheoli ein hanghenion ynni. Mae'r newidiadau hyn eisoes yn digwydd ac er nad yw polisi ynni yn fater datganoledig, mae nifer fawr o bolisiau galluogi allweddol yn faterion datganoledig – gan gynnwys datblygu economaidd, tai, cynllunio, rheoleiddio amgylcheddol, llygredd a thrafnidiaeth.

Yng Nghymru, daw 62% o'r gallu cynhyrchu ynni adnewyddadwy o ffynonellau fel gwynt a solar gyda 25% arall yn dod o gynhyrchu ynni adnewyddadwy thermol a 13% o gynhyrchu ynni hydro. Mae gan y ffermydd gwynt presennol allu i gynhyrchu 562MW. Bydd datblygiadau sylweddol fel Gwynt y Môr, a fydd yn weithredol y flwyddyn nesaf, yn arwain at 576MW o gynnydd yn y gallu ar y môr, a 263MW arall o ddatblygiadau ar y tir.

Cynllunio ynni adnewyddadwy

Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy i'w weld ym Mholisi Cynllunio Cymru a TAN8 . Yn ôl ein polisi, dylai ffermydd gwynt sydd wedi'u dylunio'n dda gael eu lleoli fel bod unrhyw gynnydd yn lefelau sŵn yr amgylchedd o amgylch datblygiadau sensitif i sŵn yn aros o fewn lefelau derbyniol mewn perthynas â sŵn cefndir cyfredol. Bydd hyn yn digwydd fel rheol drwy ddylunio'r tyrbinau mewn ffordd dda a thrwy ganiatáu

digon o bellter rhwng y tyrbinau ac unrhyw ddatblygiad sensitif i sŵn. Fel arfer mae lefelau sŵn y tyrbinau yn isel ac, o dan y mwyafrif o amodau, mae'n debygol y byddai sŵn y tyrbinau yn cael ei guddio'n llwyr gan sŵn cefndir y gwynt.

Mae'r adroddiad "The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms" (ETSU-R-97), yn rhoi fframwaith ar gyfer mesur sŵn ffermydd gwynt ac yn awgrymu lefelau sŵn fyddai'n cynnig amddiffyniad rhesymol i gymdogion ffermydd gwynt, heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiadau ffermydd gwynt neu ychwanegu gormod o gostau a baich gweinyddol i ddatblygwyr ffermydd gwynt neu awdurdodau cynllunio.

Pellteroedd Gwahanu

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch pellteroedd gwahanu a welir yn TAN 8 yn ymwneud â chanllawiau methodoleg ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol wrth osod ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol, ac nid yw wedi newid. Yn y cyd-destun hwn mae TAN 8 yn datgan "500m is currently considered a typical separation distance between a wind turbine and residential property to avoid unacceptable noise impacts, however when applied in a rigid manner it can lead to conservative results and so some flexibility is advised", felly disgwylir i'r pellteroedd gwahanu gael eu gosod yn lleol ar sail asesiad trwyadl o effeithiau lleol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i benderfyniadau ar geisiadau cynllunio barchu polisi cynllunio Cymru sydd wedi'i osod ym Mholisi Cynllunio Cymru (PPW) a TAN 8: Ynni Adnewyddadwy.

Cred Llywodraeth Cymru y gallai isafswm caeth ar gyfer pellter gwahanu lesteirio datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ddiangen. Rydym wedi bod yn gyson o'r farn ei bod yn well gadael i'r pellter gwahanu rhwng cartrefi a thyrbinau gwynt gael ei benderfynu'n lleol, fesul achos unigol, gan ystyried materion sensitif yn lleol megis topograffeg, cyflymdra a chyfeiriad gwynt lleol yn ogystal ag ystyriaethau pwysig effeithiau gweledol a chronnol.

Adroddiad Hayes Mckenzie ar sŵn tyrbinau gwynt

Mae llywodraethau Cymru a'r DU yn awyddus i sicrhau bod awdurdodau cynllunio a datblygwyr yn deall yn glir beth yw'r arfer gorau, er mwyn darparu mwy o sicrwydd a chysondeb o fewn y system gynllunio. Yn dilyn pryderon ynghylch cysondeb yn y ffyrdd o weithredu'r ETSU-R-97 yn ymarferol, comisiynwyd yr ymgynghorwyr Hayes Mckenzie i gynnal prosiect ymchwil i ddadansoddi materion sy'n codi wrth ystyried effeithiau sŵn mewn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ffermydd gwynt yn Lloegr.

Mae'r adolygiad wedi tynnu sylw at y problemau sy'n wynebu awdurdodau cynllunio lleol wrth ddelio ag asesiadau sŵn ar gyfer safleoedd ffermydd gwynt, o ran strwythur y dogfennau, ac o ran amrywiaethau yn y ffyrdd mae

rhai ffactorau'n cael eu hystyried yn yr asesiadau. Mae hyn yn awgrymu bod angen canllawiau arfer da i gadarnhau a, lle bo angen, egluro ac ychwanegu at y ffordd y dylid gweithredu'r ETSU-R-97 yn ymarferol.

Roedd adroddiad Hayes McKenzie yn dadansoddi'r cysondeb wrth gynnal asesiadau sŵn yn hytrach nag asesu'r ETSU-R-97 ei hun. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi ETSU-R-97. Mae'r dulliau cyfredol sy'n cael eu defnyddio i weithredu canllawiau'r ETSU-R-97 yn parhau i fod yn weithredol nes bydd canllawiau arfer da atodol yn cael eu cyhoeddi.

Mae'r Sefydliad Acwsteg yn datblygu canllawiau arfer da ac mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynrychioli ar y pwyllgor hwn. Mae disgwyl i'r Sefydliad Acwsteg gyhoeddi drafft ar gyfer ymgynghoriad ddechrau haf 2012.

Ymatebion i argymhellion unigol

Argymhelliad 1. *Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru newid yr Arweiniad Cynllunio Statudol i gynnwys clustogfeydd sy'n cadw'r isafswm presennol o 500 metr rhwng preswylfeydd a thyrbinau, gan gynyddu'r isafswm hwn fel y bo'n briodol, ac mewn amgylchiadau penodedig, hyd at 1500 metr dan amgylchiadau eithriadol, yn ôl ffactorau amgylcheddol fel topograffi a lefel sŵn yr amgylchedd.*

Ymateb: Gwrthod

Nid oes modd i ni dderbyn yr argymhelliad hwn am resymau technegol.

Yn gyntaf, nid yw Polisi a Chanllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru'n *statudol* ac o ganlyniad nid oes modd i ni dderbyn yr argymhelliad hwn i sicrhau'r effaith y mae'r Pwyllgor yn ei ddymuno.

Yn ail, nid yw'n wir bod gofyn am bellter gwahanu safonol, caeth o 500m rhwng preswylfeydd a thyrbinau. Cynigiwyd y canllawiau yn Atodiad D TAN 8 i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i osod ffiniau'r Ardaloedd Chwilio Strategol ac nid thyrbinau unigol; ac mae'n cydnabod y dylai trothwy o'r fath gael ei weithredu'n hyblyg hyd yn oed yng nghyd-destun ffiniau Ardaloedd Chwilio Strategol.

Mae effeithiau sŵn thyrbinau gwynt yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau, fel y math o dyrbin sy'n cael ei gynnig, y dopograffeg leol, cyflymdra a chyfeiriad gwynt lleol, sy'n golygu nad yw'n briodol gosod pellter gwahanu caeth. Rhaid ystyried effeithiau sŵn yn eu cyd-destun lleol a dod i benderfyniad ar sail tystiolaeth leol. Mewn rhai achosion efallai bod pellter gwahanu o 500m yn annerbyniol o agos i ambell eiddo wrth ystyried effeithiau lleol, lle mewn achosion eraill efallai nad oes modd gweld unrhyw effaith gan y thyrbinau o fewn radiws 500m.

Argymhelliad 2. *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod canllawiau ETSU-R-97 yn cael eu hadolygu i ystyried lefel is y sŵn yn yr amgylchedd mewn ardaloedd gwledig a'r gwaith ymchwil diweddaraf a thystiolaeth Sefydliad Iechyd y Byd ar effeithiau sŵn ar gwsg.*

Ymateb: Gwrthod

Nid oes modd i ni dderbyn yr argymhelliad hwn am resymau technegol.

Yn gyntaf, nid oes modd i Lywodraeth Cymru ddiwygio ETSU-R-97. Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU (DECC) oedd yn gyfrifol am ei gomisiynu. Mae'n cael ei ddefnyddio gan awdurdodau ledled y DU.

Yn ail, mae digwyddiadau diweddar yn effeithio ar yr argymhelliad hwn. Ym mis Ebrill 2011 comisiynwyd Hayes Mackenzie gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd i adolygu'r ETSU-R-97. Gofynnwyd iddynt edrych ar y ffordd o bennu effeithiau sŵn ffermydd gwynt, gan gynnwys y ffyrdd sy'n cael eu defnyddio i weithredu canllawiau'r ETSU-R-97, er mwyn awgrymu meysydd sydd angen canllawiau manylach. Canfu'r astudiaeth hon, drwy ddadansoddi astudiaethau achos, bod y ffordd sylfaenol o asesu sŵn tyrbinau gwynt a gyflwynwyd yng nghanllawiau'r ETSU-R-97 yn berthnasol o hyd ond bod materion yn codi ynghylch amrywiaethau yn safon yr asesiadau sŵn.

O ganlyniad, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Sefydliad Acwsteg i gynhyrchu canllaw arfer da ar ddefnydd effeithiol o ganllawiau ETSU. Rydym yn disgwyl gweld ymgynghoriad ar y canllawiau arfer da erbyn yr hydref.

Credwn mai'r canllawiau ETSU-R-97 yw'r ffordd fwyaf priodol o hyd o asesu sŵn tyrbinau gwynt, a bod modd iddynt fynd i'r afael â lefelau sŵn amgylchedd is mewn gwahanol leoliadau. Dylai'r canllawiau arfer da ar asesu sŵn fod o gymorth i awdurdodau a chymunedau lleol.

Argymhelliad 3. *Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid newid y canllawiau cynllunio statudol i'w gwneud yn ofynnol i dyrbinau diffygiol gael eu diffodd ar amserau penodedig dros nos cyn gynted ag y mae'r diffyg yn effeithio ar y sŵn y maent yn ei greu, ac i beidio â defnyddio'r tyrbinau eto nes byddant wedi'u trwsio'n iawn.*

Ymateb: Gwrthod

Eto, rhaid i ni wrthod yr argymhelliad hwn am resymau technegol. Rydym eisoes wedi egluro nad oes sail statudol i Ganllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru.

Hefyd, nid ydym yn credu y gellid gorfodi'r argymhelliad hwn yn effeithiol drwy amodau cynllunio. Gellir gosod amodau ynghlwm â chaniatâd er mwyn gwneud datblygiad yn dderbyniol. Fodd bynnag, er y gall hyn gynnwys cyfyngu ar yr oriau gweithredu, rhaid i'r defnydd o amodau fod yn briodol er mwyn gallu eu hamddiffyn yn gyfreithiol, felly rhaid iddynt fod yn angenrheidiol, perthnasol, rhesymol ac yn ymarferol i'w gorfodi.

Mae ffyrdd eraill ar gael i fynd i'r afael â sŵn sy'n cael ei greu gan dyrbinau diffygiol, fel y pwerau sydd gan adrannau iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol i reoli niwsans statudol fel y gwelir yn Neddff Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Argymhelliad 4. *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gweithgor y Sefydliad Acwsteg yn ymgynghori'n ystyrlon â phobl sy'n byw gerllaw tyrbinau gwynt fel bod eu profiadau'n helpu i lywio'r casgliadau a'r argymhellion y disgwylir i'r Grŵp eu cyhoeddi ym mis Medi 2012.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rydym yn derbyn bod angen ymgynghoriad ystyrlon ar y canllawiau arfer da a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Acwsteg. Mae ymchwil Hayes Mackenzie yn dangos bod angen gwella sgiliau'r rhai sy'n comisiynu ac ystyried asesiadau sŵn, a'r gynulleidfa darged ar gyfer y gwaith hwn fydd cynllunwyr awdurdodau lleol, swyddogion iechyd yr amgylchedd ac ymgeiswyr. Fel hyn, dylid sicrhau bod asesiadau sŵn yn ddigonol yn y dyfodol. Pan fydd ymgynghoriad y Sefydliad Acwsteg/Adran yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd yn cael ei gyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn gosod dolen ar ei gwefan ar gyfer pobl Cymru.

Goblygiadau ariannol:

Dod o dan y gyllideb gyfredol